



Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Hyfforddiant Trawma a Phrofiadau
Niweidiol yn ystod Plentyndod i ymarferwyr
Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill
(ESOL) yng Nghymru:
deall y ddarpariaeth bresennol a'r bylchau

Natasha Judd, Kat Ford, Katie Cresswell, Rebecca Fellows, Karen Hughes

Uned Cydweithredu Iechyd y Cyhoedd, yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor



Hyfforddiant Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn
ystod Plentyndod i ymarferwyr Saesneg ar gyfer
Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru:

deall y ddarpariaeth bresennol a'r bylchau

Natasha Judd, Kat Ford, Katie Cresswell, Rebecca Fellows, Karen Hughes

Uned Cydweithredu Iechyd y Cyhoedd, yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor

Ariannu

Ariannwyd y gwaith ymchwil hwn gan Hyb ACE Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd
Cyhoeddus Cymru.

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr astudiaeth, a phawb
a siaradodd â ni am hyfforddiant ESOL yng Nghymru ac a rannodd wybodaeth am
yr astudiaeth. Hoffem ddiolch i Nayana Varadaraj a Carys Dale am eu cymorth i
lunio'r adroddiad. Yn olaf, hoffem ddiolch i Anne Hubbard (Cyfarwyddwr Partneriaeth
Mewnffudo Strategol Cymru [WSMP]), Erica Williams (Cydlynnydd ESOL WSMP) a Dr
Catrin Wyn Edwards (Prifysgol Aberystwyth) am ddarparu adolygiad gan gymheiriaid.

ISBN 978-1-84220-215-9



Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales



© 2024 Prifysgol Bangor

Ceir atgynhyrchu deunydd sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon dan delerau'r
Drwydded Llywodraeth Agored – www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 – ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na ddefnyddir
y deunydd mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid datgan cydnabyddiaeth i Brifysgol Bangor.

Mae hawlfraint sy'n ymwneud â'r trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn
eiddo i Brifysgol Bangor.

1. Cefndir

Yng Nghymru, mae'r ddarpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ar gyfer oedolion sydd wedi dod i fyw i'r DU am wahanol resymau. Drwy ESOL, mae dysgwyr nad Saesneg neu Gymraeg yw eu hiaith gyntaf yn gallu datblygu eu sgiliau Saesneg. Mae ESOL yn cael ei ddarparu gan amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae gwersi'n cael eu cyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys sefydliadau addysgol ac elusennol a lleoliadau cyhoeddus, fel canolfannau cymunedol.

Nod polisi ESOL Cymru yw helpu unigolion i ailadeiladu eu bywydau ac integreiddio o fewn cymunedau [1]. Mae dysgwyr ESOL yn dod o gefndiroedd amrywiol, ac yn cynnwys unigolion sydd wedi cael eu gorfodi i fudo a/neu sy'n fewnfudwyr o wledydd nad ydynt yn siarad Saesneg [2,3]. Canfuwyd bod ESOL yn chwarae rhan ganolog yn y dasg o hybu annibyniaeth ac integreiddio dysgwyr, ac o gynyddu cyfleoedd addysg a chyflogaeth [4].

Efallai fod dysgwyr ESOL wedi profi trawma cymhleth a thrawma am gyfnod sylweddol, ac efallai y byddant yn parhau i wynebu amrywiaeth o heriau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) hiliaeth a gwahaniaethu, ansicrwydd o ran eu statws mudwr, heriau cyflogaeth ac ansefydlogrwydd ariannol [4-7]. Gall anghenion emosiynol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr olygu cymhlethdodau i ymarferwyr ESOL sydd y tu hwnt i gwmpas athrawon iaith eraill. Fodd bynnag, ychydig o astudiaethau hyd yn hyn sydd wedi archwilio effaith trawma dysgwyr ESOL yn yr ystafell ddosbarth ESOL i oedolion gydag ymarferwyr ESOL [8-11]. Yn ôl canfyddiadau arolwg ar-lein gyda darparwyr ESOL yng Nghymru, mae lle i gredu bod trawma yn effeithio ar allu dysgwyr i ddysgu a bod angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr ESOL [4].

Mae'n bwysig bod darparwyr ESOL yn cael eu hyfforddi i ddeall yr anawsterau posibl y gall dysgwyr ESOL eu hwynebu, a sut y gall eu profiad o drawma effeithio ar yr amgylchedd dysgu. Mae Hyb ACE Cymru wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu dull gweithredu ystyriol o drawma ar gyfer addysg bellach, gan ddechrau gyda Choleg Cambria, Coleg Gwent a Choleg Sir Benfro, ac sydd bellach wedi'i ymestyn ar draws y sector yng Nghymru [12,13]. Fodd bynnag, nid yw wedi'i ymestyn eto i ESOL o fewn holl golegau Cymru a'r tu allan i leoliadau addysg bellach. Mae argymhellion adolygiad Llywodraeth Cymru o bolisi ESOL, a gyhoeddwyd yn 2023 [4], yn cynnwys yr angen i wreiddio arferion ystyriol o drawma sy'n benodol i ESOL (Argymhelliad 27), ac y gallai adnoddau hyfforddi Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE) fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma ar gyfer lleoliadau ESOL (Argymhelliad 17).

Nod yr astudiaeth ansoddol hon yw cefnogi polisi ESOL yng Nghymru drwy ddarparu dealltwriaeth o'r hyfforddiant ystyriol o drawma sydd ar gael ar gyfer ymarferwyr ESOL yng Nghymru, a chanfod beth yw eu hanghenion hyfforddi ychwanegol.

2. Dulliau



Cynhaliwyd gwaith cwmpasu cychwynnol i geisio deall argaeledd presennol hyfforddiant ystyriol o drawma ar gyfer ymarferwyr ESOL a ddarperir yng Nghymru. Cysylltodd ymchwilyr ag unigolion a oedd yn ymwneud â'r gwaith o ddarparu ESOL yng Nghymru drwy negeseuon e-bost a galwadau ffôn, er mwyn cael gwybodaeth am ddarpariaeth hyfforddiant ESOL ar hyn o bryd. Roedd y broses hon hefyd yn helpu i ddod o hyd i sefydliadau ac unigolion i'w cynnwys yn yr astudiaeth.

Cynhaliwyd deuddeg cyfweiliad lled-strwythuredig gydag ymarferwyr ESOL yng Nghymru i ddeall a oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ystyriol o drawma ac i nodi anghenion hyfforddi pellach. Roedd y cyfweiliadau hefyd yn ceisio deall argraffiadau ymarferwyr o sut mae profiad myfyrwyr/dysgwyr o drawma yn gallu effeithio ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth ac effaith hyn ar athrawon, yn enwedig o ran eu hanghenion hyfforddi. I gael eu cynnwys yn yr astudiaeth, roedd angen i gyfranogwyr fod yn gweithio fel ymarferwyr ESOL yng Nghymru pan oedd data'n cael ei gasglu. Cafodd prosesau recriwtio a chasglu data eu cynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024.

Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio gan ddefnyddio dull samplu cyfleus. Cysylltwyd ag unigolion a sefydliadau a oedd yn gysylltiedig ag ESOL dros y ffôn ac e-bost, a'u gwahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Cafodd cyfranogwyr posibl daflen wybodaeth am yr astudiaeth yn rhoi manylion am nod yr astudiaeth, ei natur ddiennw a chyfrinachol, a manteision a risgiau posibl cymryd rhan. Nod y gwaith samplu oedd

2. Dulliau

cynnwys ymarferwyr ESOL ledled Cymru a chwmpasu amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys colegau, cyrff elusennol a thrydydd sector, awdurdodau lleol a chanolfannau dysgu i oedolion. Pan oedd hynny'n berthnasol, gofynnwyd i'r cysylltiadau rannu'r gwahoddiad i ddod am gyfweiliad gydag ymarferwyr ESOL eraill yng Nghymru.

Cafodd y cyfranogwyr gynnig cyfweiliad wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein ar amser a dyddiad cyfleus. Cafwyd cydsyniad gwybodus yn electronig cyn cymryd rhan. Cyn dechrau'r cyfweiliad, byddai'r ymchwilydd yn rhoi crynodeb o'r daflen wybodaeth i'r cyfranogwr, yn rhoi cyfle iddo ofyn unrhyw gwestiynau ac yn gofyn am ganiatâd llafar i recordio'r cyfweiliad.

Roedd y cyfweiliadau'n cael eu harwain gan ganllawiau pwnc a oedd wedi'u cynllunio i archwilio meysydd o ddiddordeb allweddol, gan gynnwys: yr hyfforddiant yr oedd cyfranogwyr wedi'i gael ac a oedd yn ystyriol o drawma; argraffiadau ymarferwyr o sut mae profiad eu myfyrwyr o drawma yn effeithio ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth; y gefnogaeth a'r oruchwyliaeth y mae ymarferwyr yn ei chael yn eu rôl; ymwybyddiaeth o Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma a Phecyn Cymorth TRACE i Sefydliadau; ac unrhyw anghenion hyfforddi oedd heb eu diwallu. Nid oedd y cyfweiliadau'n holi'n uniongyrchol am brofiad y myfyrwyr neu'r ymarferwyr eu hunain o fudo neu drawma (gweler y cyfyngiadau). Ar ben hynny, ni ddarparwyd diffiniad o drawma i'r cyfranogwyr, nac esboniad o sut y gallai trawma effeithio ar ddysgu.

Ar ôl y cyfweiliad, rhoddwyd briff ysgrifenedig i'r cyfranogwyr a oedd yn cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cymorth perthnasol yng Nghymru. Roedd yr holl ddeunyddiau recriwtio ac astudio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cynhaliwyd cyfweiliadau drwy Microsoft Teams a chawsant eu recordio, cyn cael eu trawsgrifio a'u gwneud yn ddiennw (e.e. dileu enwau ac unrhyw wybodaeth adnabod) gan y tîm ymchwil. Roedd y cyfweiliadau'n para rhwng 20 a 50 munud. Dadansoddwyd y data yn thematig gan ddefnyddio NVivo fersiwn 14. Cafodd themâu cyffredinol ar draws y cyfweiliadau eu nodi drwy waith dadansoddiad gan dri ymchwilydd, gyda themâu'n cael eu trafod a'u cytuno yn ystod y broses ddadansoddi. Mae'r themâu terfynol y cytunodd yr ymchwilydd arnynt ac a archwiliwyd yn cynnwys: ymwybyddiaeth ymarferwyr o drawma; argraffiadau ymarferwyr o effaith trawma ar ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth; effaith trawma ar arferion addysgu yn yr ystafell ddosbarth; pwysigrwydd profiad a dysgu ar y cyd ar gyfer arferion presennol sy'n ystyriol o drawma; yr angen am hyfforddiant ystyriol o drawma sy'n benodol i leoliadau ESOL; pwysigrwydd creu manau diogel a diogelu dysgwyr; a'r angen am gymorth ychwanegol ar gyfer ymarferwyr ESOL.

Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr astudiaeth gan Bwyllgor Moeseg Academaidd Meddygaeth a Gwyddorau Iechyd Prifysgol Bangor (Rhif cyfeirnod: 0360).



2.1 Nodweddion y cyfranogwyr

Roedd wyth cyfranogwr o'r deuddeg yn gweithio mewn colegau addysg bellach – tri ym maes dysgu oedolion yn y gymuned a dau mewn sefydliadau elusennol (roedd un ymarferydd yn gweithio i ddau sefydliad). Roedd rhai cyfranogwyr yn dysgu ESOL mewn sawl lleoliad, gydag wyth yn addysgu mewn colegau, chwech yn y gymuned, dau mewn lleoliadau elusennol ac un ar-lein.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn dysgu ESOL ar draws mwy nag un o raddau, yn amrywio o lefel cyn mynediad (y radd isaf) i lefel dau (y radd uchaf). Roedd y cyfranogwyr wedi bod yn addysgu ESOL am gyfnodau a oedd yn amrywio o ddwy flynedd i 41 o flynyddoedd. Roedd un ar ddeg o gyfranogwyr wedi'u lleoli yn Ne Cymru ac un yng Nghanolbarth Cymru. Ni chymerodd ymarferwyr ESOL yng Ngogledd Cymru ran (gweler y cyfyngiadau). Ni ofynnwyd i gyfranogwyr am eu profiad eu hunain o fudo a thrawma (gweler y cyfyngiadau).

3. Canlyniadau



3.1 Yr hyfforddiant ystyriol o drawma sy'n cael ei ddarparu i ymarferwyr ESOL yng Nghymru ar hyn o bryd

- Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent erioed wedi cael hyfforddiant ystyriol o drawma fel rhan o'u rôl. Roedd y cyfweiliadau'n awgrymu mai ychydig iawn o hyfforddiant ystyriol o drawma oedd ar gael i ymarferwyr ESOL yng Nghymru.
- Nododd yr ymarfer cwmpasu rai enghreifftiau o hyfforddiant ystyriol o drawma a oedd yn benodol i ESOL, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu darparu yn Lloegr ond ar gael i ymarferwyr yng Nghymru (gweler Blwch 1).
- Roedd ambell gyfranogwr a gymerodd ran yn y cyfweiliadau wedi cwblhau hyfforddiant trawma a oedd yn orfodol gan y cyflogwr, ond nid oedd hyn wedi bod yn benodol i'r lleoliad ESOL. Roedd un cyfranogwr wedi mynd ati'n wirfoddol i gwblhau'r Hyfforddiant Ystyriol o Drawma wrth Addysgu ESOL i Ffoaduriaid, a ddarparwyd gan Brifysgol Caerlŷr (gweler Blwch 1), ac roedd dau wedi mynychu seminarau neu weithdai ar drawma o'u gwirfodd drwy'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Addysgu Saesneg ac leithoedd Cymunedol eraill i Oedolion (NATECLA; gweler Blwch 1).

3. Canlyniadau

Blwch 1: Enghreifftiau o hyfforddiant ystyriol o drawma sy'n benodol i leoliadau ESOL

Nod yr ymarfer cwmpasu oedd gweld pa hyfforddiant ystyriol o drawma sy'n benodol i ESOL sydd ar gael i ymarferwyr ESOL yng Nghymru. Nodwyd y canlynol, ond ni allwn roi sylwadau ar effeithiolrwydd yr hyfforddiant, na pha mor berthnasol ydyw i gyd-destun ESOL Cymru.

- Mae Uned Ceiswyr Lloches Prifysgol Caerlŷr wedi datblygu [Hyfforddiant Ystyriol o Drawma wrth Addysgu ESOL i Ffoaduriaid](#). Mae'r hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion ymarferwyr ESOL ac mae'n ceisio meithrin ymwybyddiaeth o sut gall trawma effeithio ar fyfyrwyr o gefndiroedd ffoaduriaid. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys strategaethau ymarferol ar gyfer ymarferwyr ESOL sy'n ceisio lliniaru effeithiau trawma dysgwyr sy'n ffoaduriaid a hybu adferiad a thwf. Mae'r hyfforddiant ar gael am ddim mewn fformat hunan-arwain neu gellir talu amdano drwy weithdy byw ar-lein (mae'r gweithdy ar gael mewn dau fformat: dilyniant i hyfforddiant hunan-arwain neu ar ei ben ei hun).
- Cynhaliwyd gweithdy ar effaith trawma yn yr ystafell ddosbarth ESOL gan Lora Agbaso yng nghynhadledd genedlaethol 2024 y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Addysgu Saesneg ac Ieithoedd Cymunedol i Oedolion (NATECLA). Mae sesiynau tebyg hefyd wedi cael eu darparu fel gweminarau ar-lein. Mae NATECLA Cymru, sef rhwydwaith a sefydlwyd yn ddiweddar, yn cynnal sesiynau ar-lein misol sy'n rhoi cyfle i ymarferwyr ESOL yng Nghymru ddod ynghyd, a gall ddarparu llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth i ymarferwyr ESOL yng Nghymru.
- Mae Rhwydwaith Fforwm ESOL (Dysgu a Gwaith, Cydlynedd ESOL Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru, Addysg Oedolion Cymru a Phrifysgol De Cymru) yn bwriadu cynnal sesiynau 'datblygu' cyn diwedd mis Mawrth 2025. Y gobaith yw y bydd un o'r sesiynau hyn yn ymdrin ag ESOL sy'n ystyriol o drawma.
- Yn 2024, dechreuodd Prifysgol De Cymru gynnis [Tystysgrif i Raddedigion mewn Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill \(arbenigedd ESOL\)](#). Mae tri modiwl craidd yn y rhaglen:
 - ▶ odulliau cyfranogol o ymdrin â'r ystafell ddosbarth ESOL
 - ▶ ogwleidyddiaeth addysg iaith mudwyr, ac
 - ▶ oaddysgu llythrennedd sylfaenol ac addysgeg sy'n ystyriol o drawma.

3.2 Ymwybyddiaeth ymarferwyr o drawma

- Ni ofynnwyd yn uniongyrchol i'r cyfranogwyr a oeddent yn teimlo bod eu myfyrwyr/dysgwyr wedi profi trawma, na sut roedden nhw'n bersonol yn deall ac yn diffinio trawma. Fodd bynnag, daeth yn amlwg o'r drafodaeth bod dealltwriaeth cyfranogwyr o drawma yn deillio'n bennaf o'u profiadau eu hunain o weithio gyda myfyrwyr ESOL, eu hymchwil annibynnol eu hunain, neu ymwybyddiaeth o drawma a oedd yn dod o'r tu allan i'w rôl ESOL.
- Ychydig o gyfranogwyr oedd yn ymwybodol o Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma a phecyn cymorth TRACE. Ar ben hynny, nid oedd gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a oedd yn ymwybodol o'r rhain lawer o ddealltwriaeth ohonynt na sut yr oeddent yn berthnasol i ESOL.

3.3 Argraffiadau ymarferwyr o effaith trawma ar ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth

- Roedd yr holl gyfranogwyr o'r farn bod llawer o ddysgwyr ESOL wedi wynebu trawma a bod hynny wedi cael effaith fawr arnynt.

"Ie. Mae trawma'n cael effaith fawr arnyd nhw. Byddwn i bron yn mynd mor bell â dweud bod trawma'n effeithio ar bob un ohonyd nhw." Cyfweliad 12

"Yn amlwg, mewn ystafell ddosbarth ESOL, mae llawer o'ch myfyrwyr yn mynd i fod yn geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid, ac fe fyddan nhw'n wynebu rhyw fath o drawma, yn dibynnu ar ble maen nhw wedi dod a beth maen nhw wedi bod drwyddo. Ac ie, mae hynny'n bendant yn rhywbeth. A dweud y gwir, does dim dosbarthiadau bron lle na fydd o leiaf un neu ddau o bobl sydd, yn sicr, wedi bod drwy bethau mawr." Cyfweliad 5

- Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn teimlo bod profiad myfyrwyr o drawma yn effeithio ar sut oedd myfyrwyr yn dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn teimlo bod trawma yn effeithio ar wybyddiaeth, emosiwn ac ymddygiad dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys effeithiau gwybyddol fel diffyg ffocws, ymgysylltiad neu gymhelliant (n = 11 o unigolion a gyfwelwyd), ymatebion emosiynol fel crïo neu ddieter (n = 8), gwrthdaro neu densiwn rhwng myfyrwyr (n = 3), a phresenoldeb gwael ymysg dysgwyr (n = 4). Dyma enghreifftiau a roddwyd gan gyfranogwyr wrth drafod sut mae trawma'n ymddangos yn yr ystafell ddosbarth:

3. Canlyniadau

"Rydw i wedi cael dysgwyr yn sefyll ar eu traed ac yn cerdded allan yn crio."
Cyfweliad 9

"Yn aml iawn, byddwch chi'n gweld oedolyn yn syllu i'r pellter fel pe baen nhw'n bell i ffwrdd, ac nid diflastod ydy'r rheswm am hynny. Efallai eu bod yn meddwl am eu teulu neu eu ffrindiau sy'n byw yng nghanol rhyfel neu beth bynnag." **Cyfweliad 1**

"Doeddwn i ddim yn sylweddoli faint y byddai'n effeithio ar sut oedden nhw'n dysgu, ac o ran sut maen nhw'n cofio gwybodaeth – hyd yn oed eu presenoldeb weithiau, oherwydd eu bod yn cael problemau iechyd meddwl neu drafferthion personol." **Cyfweliad 8**

- Eglurodd dau gyfranogwr eu bod yn teimlo bod eu dysgwyr yn gryf iawn. Roedd tri o'r cyfranogwyr yn cydnabod bod gan eu dysgwyr awydd i symud ymlaen, gydag o leiaf un cyfranogwr yn cysylltu hynny â'u profiad o drawma.

"Mae llawer o'r dysgwyr ESOL yn gryf iawn. Maen nhw'n benderfynol iawn. Maen nhw'n llawn cymhelliant ac mae hynny'n golygu bod eu haddysgu nhw fel chwa o awyr iach." **Cyfweliad 8**

"Mewn llawer o ffyrdd, rwy'n credu bod 'trawma' yn eu gyrru nhw."
Cyfweliad 2

- Roedd rhai cyfranogwyr yn ymwybodol yn gyffredinol o'r mathau o drawma y gallai pobl fod wedi'u profi, gan ddibynnu ar o ble roedd y dysgwr wedi dod. Nododd eraill fod dysgwyr wedi rhannu eu trawma â nhw yn uniongyrchol.

"Dwi'n gwybod be 'di rhywfaint o'r trawma, mae gwybod o ble mae rhywun yn dod yn rhoi syniad i chi, ond mae'r trawma unigol yn gallu bod yn eithafol iawn 'da chi'n gwybod. Ond 'da chi'n cael syniad pan fyddwch chi'n gwybod o ble mae rhywun yn dod o ba fath o beth maen nhw wedi gorfod delio ag ef. Mae llawer ohonyn nhw eisiau dweud wrthoch chi, ond eto dydy llawer ohonyn nhw ddim." **Cyfweliad 6**

"...mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol bod y bobl rydych chi'n mynd i'w cael yn eich dosbarthiadau wedi cael profiadau anodd iawn iawn, does gynnoch chi ddim gobaith o'u deall nhw eich hun, ond 'da chi'n gwybod bod hynny wedi digwydd." **Cyfweliad 5**

"...mae'n ddiddorol weithiau, efallai y byddwch chi'n gwneud rhywbeth yn y dosbarth, ac mae rhywun wir eisiau dweud wrthoch chi am y peth ofnadwy 'ma. Maen nhw eisiau dweud wrth bawb fel bod pawb yn gwybod, ac mae hynna wastad yn risg." **Cyfweliad 5**

3. Canlyniadau

- Er bod rhai cyfranogwyr wedi dweud bod rhan o'u rôl yn cynnwys gallu siarad â'u myfyrwyr am eu trawma, roedd eraill yn teimlo nad oedd hynny'n rhan o'u rôl, neu ei fod y tu hwnt i'w gallu i siarad â'u myfyrwyr am eu profiadau.

"...dwi'n teimlo ei fod o'n rhan o 'ngwaith i, gwneud cyfle i wrando"

Cyfweliad 5

"...maen nhw'n gallu dod i siarad efo fi am unrhyw beth, boed hynny yn yr ystafell ddosbarth, neu yn amlach na pheidio, yn fy swyddfa, neu mi fydda i'n rhoi grŵp WhatsApp at ei gilydd." **Cyfweliad 7**

"...derbyn bod y bobl yma wedi cael eu heffeithio, eu bod nhw yn cael eu heffeithio, ac y byddan nhw'n cael eu heffeithio am byth mae'n siŵr, a does 'na ddim llawer y galla i ei wneud i newid hynny. Ond mi alla i eistedd gyda'r teimlad anesmwyth 'na, os 'di hynna'n gwneud synnwyr. 'Da chi'n gwybod, os ydy rhywun yn ypset, fyddai ceisio dweud wrthyn nhw bod popeth yn iawn a'u bod nhw'n ddiogel nawr, fyddai hi ddim yn briodol i mi wneud hynny. Dylwn eistedd gyda'r teimlad anesmwyth a bod yn dawl, nid ceisio ei wella. Peidio â cheisio newid dim byd. A dwi'n meddwl, yn fy marn i, fod hynny'n gwneud i fyfyrwyr sydd efallai'n teimlo'n ypset neu angen dweud rhywbeth am y peth deimlo'n ddiogel. 'Da chi'n gwybod, nid beirniadu, nid ceisio newid dim byd, dim ond eistedd efo'r peth."

Cyfweliad 11

"Dwi'n meddwl mai bod yn ymwybodol o sefyllfaoedd penodol nad ydw i'n gwybod sut i ddelio â nhw, senarios be 'da chi'n wneud mewn sefyllfaoedd lle mae pobl yn rhannu'r baich, a sut mae rhywun yn gosod ffiniau ar gyfer hynny. Alla i ddim. Does gen i ddim amser i wrando arnat ti'n dweud y stori yma am ddwy awr. Dwi'm yn gwybod lle i dy gyfeirio di." **Cyfweliad 3**

"Rwy'n tueddu i beidio, peidio mynd i mewn i ddim byd ac osgoi'r peth, osgoi ceisio cael gwybod am hynny." **Cyfweliad 6**

- Roedd rhai cyfranogwyr yn cydnabod ei bod yn anodd cyfathrebu â'u dysgwyr am eu trawma. I rai, roedd hyn oherwydd nad oedd dysgwyr yn siarad am y trawma, ond roedd unigolion eraill yn teimlo nad oeddent yn gallu trafod trawma oherwydd rhwystrau iaith a chyfathrebu, a oedd hefyd yn rhwystrau rhag cyfeirio ymlaen at wasanaethau cymorth.

"...mae gynnon ni ddysgwyr sydd, yn bendant, yn y sefyllfa yma. Hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi datgelu dim byd i mi, mae eu hymatebion corfforol yn yr ystafell ddosbarth yn dangos i mi, mae iaith eu corff yn dangos i mi fod rhywbeth ddim yn iawn." **Cyfweliad 9**

3. Canlyniadau

"...mewn gwirionedd, mae'r person yma wedi bod yn mynd drwy gryn dipyn, ond weithiau oherwydd bod iaith yn rhwystr, 'da ni'n gweld nad ydyn nhw bob amser yn gallu cyfleu'r math o drawma maen nhw'n ei deimlo neu pa mor anghyfforddus mae rhai o'r pynciau'n gwneud iddyn nhw deimlo."

Cyfweliad 2

"...o ran be sy'n cael ei ofyn o'r athro, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ESOL, pan nad oes gan bobl lawer o iaith, maen nhw'n cael yr un gefnogaeth yn y coleg ag y mae dysgwyr eraill yn ei chael, felly mae'r iaith yn gymaint o rwystr, mae methu mynegi eich hun, mae'n eich rhoi chi mewn sefyllfa o fod fel plentyn eto, neu deimlo'n ddiymadferth neu'n ddiobaith."

Cyfweliad 3

"...mae yna rai pobl, a dwi'm yn gwybod achos yn aml dydy'r bobl sydd efo llai o Saesneg ddim yn gallu egluro, ond dwi 'di cael teimlad bod yna bethau fel straen ar ôl trawma neu bethau eraill o bosibl yno." **Cyfweliad 4**

- Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y gofyn emosiynol sy'n gysylltiedig ag addysgu ESOL, yn enwedig lle'r oedd myfyrwyr wedi datgelu eu trawma.

"...weithiau 'da chi'n cael gwybod, a dwi'n gwybod bod hynny'n digwydd i athrawon eraill hefyd. Maen nhw'n cael gwybod, ac a bod yn onest, mi fysa'n well gynnoch chi beidio gwybod weithiau." **Cyfweliad 6**

"...weithiau, gall fod yn dipyn o straen, yn emosiynol, os bydd pobl yn penderfynu [datgelu profiad trawmatig]. Weithiau, chi yw'r unig un, chi yw'r unig un maen nhw'n ei adnabod yn y wlad ac ati, ac maen nhw wir eisiau i chi wybod a deall be sydd wedi digwydd iddyn nhw." **Cyfweliad 5**

- Nododd un cyfranogwr ei fod wedi profi trawma mechnïol (gweler hefyd Yr angen am gymorth ychwanegol i ymarferwyr ESOL)

"...mechnïol, ai trawma mechnïol maen nhw'n ei alw fo? Pan fyddwch chi'n profi rhywbeth, trawma rhywun arall? Ie, dwi'n meddwl mai trawma mechnïol maen nhw'n galw hynny. Dydw i ddim yn meddwl bod digon o sylw'n cael ei roi i hynny oherwydd mi allwch chi ddod allan o ystafell ddosbarth yn teimlo'n reit emosiynol ac ypset. Dydw i ddim yn gwybod fyddwn i'n defnyddio'r gair trawma, mae'n derm eithaf eang dydy? Ond mi allwch ddod allan yn teimlo ychydig fel, 'be...wnes i ddelio efo hynna mewn ffordd briodol? Oedd hynna'n iawn?' Maen nhw wedi gadael yr ystafell ddosbarth erbyn hyn ac alla i ddim gwneud dim byd'. Mi allwch chi, mi allwch chi ddod allan yn teimlo fel 'na." **Cyfweliad 10**

3.4 Effaith trawma ar arferion addysgu yn yr ystafell ddosbarth

- Esboniodd ymarferwyr fod trawma dysgwyr yn dylanwadu ar eu harferion addysgu, a disgrifiwyd yr angen i fod yn hyblyg o ran dulliau addysgu gan ddibynnu ar anghenion y myfyrwyr. Yn benodol, nododd y cyfranogwyr ei bod yn anodd rhagweld pynciau a allai fod yn sbardun i fyfyrwyr, a soniwyd bod hyn yn gallu effeithio ar y dasg o gynllunio gwersi.

"Cyflwynais y termau Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin, a dechreuodd y myfyriwr feichio crio. Pan oedd hi'n teimlo ei bod hi'n gallu siarad yn nes ymlaen – erbyn hynny roedden ni'n amlwg wedi newid y pwnc ac wedi ei helpu efo'i hemosiynau – pan oedd hi'n gallu siarad, disgrifiodd sut roedd hi wedi cael ei churo am beidio gwybod beth oedd Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin yn yr ysgol. Fyddwn i byth wedi gallu gwybod hynny."

Cyfweliad 9

"...da chi'n tueddu i deimlo eich ffordd o gwmpas a cheisio osgoi unrhyw beth rydych chi'n gwybod sy'n mynd i fod yn sbardun, iawn. Ond wyddoch chi, mae 'na ambell beth na fyddwch chi byth yn gwybod y byddan nhw'n sbardun, ac mae'n rhaid i chi ddelio efo'r peth a rhoi cyfle iddyn nhw ddelio efo fo, achos mae'n bur sicr na fyddwch chi'n gwybod." Cyfweliad 6

"Roedd 'na deimlad o wrthwynebiad yn fy nosbarth lefel dau y llynedd gan nad oedden nhw eisiau siarad am y cartref fel pwnc. Roedd o jyst yn brifo i'r byw ac yn ormod iddyn nhw. Felly wrth gwrs, roedd o'n golygu bod rhaid i mi ail-addasu popeth yn y rhaglen am bythefnos i geisio gwneud yn siŵr bod beth roeddwn i'n rhoi sylw iddo yn mynd i roi'r iaith roedd ei hangen arnyn nhw, heb roi sylw i'r union bwnc hwnnw drosodd a throsodd." Cyfweliad 2

"Ti'n siarad am deulu. Wedyn mae'r dysgwyr yn dweud, 'peidiwch â gofyn i ni am deulu', oherwydd 'da chi'n gwybod nad ydyn nhw wedi gweld eu teulu. Efallai eu bod nhw, eu teulu, ar goll, wyddoch chi. Felly 'da ni wedi cael dysgwyr yn dweud, 'na, peidiwch â siarad am hyn. Peidiwch â gofyn i ni am hyn." Cyfweliad 3

3. Canlyniadau

- Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn cael trafferth rheoli gweddill yr ystafell ddosbarth os bydd problem yn codi gydag un myfyriwr.

"...mae'n rhaid i chi hefyd reoli gweddill yr ystafell ddosbarth, achos yn dibynnu ar ymatebion myfyrrwyr eraill, gall pethau gynyddu fel caseg eira."

Cyfweliad 9

"...wedyn roedd rhywbeth wedi digwydd, a byddai'n rhaid i mi roi'r gorau i'r wers, wyddoch chi, gadael i bawb gael paned o de a thawelu chydig bach."

Cyfweliad 4

"...mwy a' sydyn, maen nhw'n dechrau ffraeo, rhywbeth felly, felly 'da chi'n cael syniad o be allai ddigwydd mewn dosbarth ESOL. Mae gynnoch chi sefyllfaoedd lle mae 'na fyfyrwyr o ddwy wahanol wlad sydd ddim ar delerau da iawn. Wedyn mae gynnoch chi ddau berson yn yr un ystafell ddosbarth ac mae hynny'n gallu creu gwrthdaro, a does 'na neb erioed wedi ein dysgu ni sut i ddelio efo hynny."

Cyfweliad 2

"...unwaith neu ddwy, dwi 'di teimlo fel, dwi'm yn gwybod be sy'n mynd i ddigwydd os ydy hwn yn mynd i ddechrau lluchio cadeiriau o gwmpas yr ystafell neu'r math yna o beth. 'Dwn i ddim sut y bydda i'n rheoli hynna ac yn cadw'r myfyrrwyr eraill yn ddiogel."

Cyfweliad 5

- Teimlai rhai cyfranogwyr nad oedd gorfod addysgu cwricwlwm penodol, gan ganolbwyntio ar basio arholiadau, o fudd i fyfyrwyr nac iddyn nhw eu hunain fel athrawon, a thynnwyd sylw at yr angen am fwy o hyblygrwydd o ran cynnwys yr hyn sy'n cael ei addysgu. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr eraill o'r farn eu bod yn gallu mabwysiadu dull mwy hyblyg o addysgu yn seiliedig ar anghenion myfyrrwyr.

"Felly dwi'n meddwl efallai ar y dysgwyr fel unigolyn, yn hytrach na'i orfodi ef neu hi i wneud asesiadau, ond wedyn does 'na ddim cymhelliant mae'n siŵr nagoes. Dydyn nhw ddim eisiau'r pwysau."

Cyfweliad 1

"...yr un arall ydy, yr angen i ddangos canlyniad, felly efallai eich bod chi'n trio achredu uned neu rywbeth, ac a bod yn onest, ar y diwrnod hwnnw, dydy o ddim yn berthnasol a dydyn nhw ddim angen hyn."

Cyfweliad 10

"Felly wedyn dwi'n cynllunio rhyw fath o gynllun gwaith, ond fel y dywedais, mae'n hyblyg iawn. Felly byddaf yn edrych ar bwy sydd gen i a be dwi'n meddwl y byddan nhw'n elwa ohono, ac yna'n dewis unedau Agored y gallwn i eu gwneud drwy gydol y flwyddyn."

Cyfweliad 7

3.5 Pwysigrwydd profiad a dysgu ar y cyd ar gyfer ymarfer cyfredol sy'n ystyriol o drawma

- Tynnodd y cyfranogwyr sylw at bwysigrwydd eu profiad eu hunain fel ymarferwyr ESOL wrth ddysgu sut i weithio gyda thrawma dysgwyr ac ymateb iddo. Oherwydd diffyg hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma, eglurodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod eu gwybodaeth am drawma, ei effaith ar ddysgwyr, a'u dulliau presennol o ymateb i drawma, wedi cael eu datblygu o'u profiadau eu hunain o addysgu ESOL.

"...ychydig iawn dwi'n wybod am hynny [trawma], ar wahân i ddelio efo'r myfyrwyr. Ond dwi'm 'di cael hyfforddiant ffurfiol na dim, dim ond delio efo nhw fel un person yn delio â pherson arall." **Cyfweliad 7**

"...dim ond profiad addysgu sydd wedi rhoi'r strategaethau yma i ni fel tîm, dydan ni ddim wedi cael dim byd ffurfiol, fel adnoddau addysgu neu rywbeth felly." **Cyfweliad 2**

- Yn gyffredinol, rhoddodd y cyfranogwyr bwyslais ar bwysigrwydd rhannu'r hyn a ddysgir yn anffurfiol gyda chydweithwyr a chymheiriaid er mwyn cael gwybodaeth am sut i weithio gyda thrawma yn yr ystafell ddosbarth ac ymateb iddo.

"...bydd y tiwtoriaid sy'n adnabod ei gilydd hefyd yn sgwrsio ac yn rhannu arferion da, mewn ffordd anffurfiol." **Cyfweliad 4**

"...dwi'n teimlo mai dyna'r cymorth mwyaf defnyddiol i mi, cael sgwrs efo 'nghydweithwyr, a gweld pethau o safbwynt gwahanol. Weithiau, wrth siarad â rhywun am rywbeth, 'da chi'n gwybod, mae'n rhoi safbwynt gwahanol i chi neu atebion eraill nad oeddech chi'n gallu eu gweld o'r blaen, yn gwneud i chi weld rhywbeth drwy lygaid rhywun arall."

Cyfweliad 8

3.6 Yr angen am hyfforddiant ystyriol o drawma sy'n benodol i leoliadau ESOL

- Dywedodd tua hanner y cyfranogwyr nad oedd yr hyfforddiant a gafwyd hyd yma wedi rhoi'r gallu iddynt weithio gyda myfyrwyr ESOL a oedd wedi profi trawma. Roedd y gweddill yn credu bod eu hyfforddiant wedi bod yn ddefnyddiol i ryw raddau, ond y byddai hyfforddiant ychwanegol yn fuddiol.
- Nododd y cyfranogwyr nad yw cymwysterau hyfforddiant athrawon presennol yn ystyried beth mae'n ei olygu i addysgu Saesneg i oedolion hŷn, sy'n aml o gefndir ffoaduriaid neu geiswyr lloches ac sy'n siarad ychydig iawn o Saesneg neu ddim o gwbl.
- Mewn achosion pan oedd cyfranogwyr wedi dilyn hyfforddiant ystyriol o drawma, roeddent o'r farn bod yr hyfforddiant yn gyffredinol ac nad oedd yn benodol nac yn berthnasol i ESOL. Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y ffaith nad oedd hyfforddiant o'r fath yn ystyried anghenion ystafell ddosbarth ESOL.

*"...er bod cyflwyniad y DU ar fod yn ystyriol o drawma yn gynhwysfawr ac yn llawn gwybodaeth – dysgais lawer iawn am niwrowyddoniaeth, dysgais rywfaint o'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio – ar gyfer amgylchedd ysgol, doeddwn i ddim yn teimlo ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r myfyrwyr yn fy nosbarthiadau i. Doedd o ddim yn teimlo'n uniongyrchol berthnasol i 'mhrofiad i.'" **Cyfweliad 9***

*"...mewn sefyllfa ESOL, dydach chi ddim bob tro'n cael yr un lefel o gyfathrebu gyda'ch myfyrwyr, felly pan fyddwch chi'n dilyn hyfforddiant sy'n gyffredinol i bob tiwtor, maen nhw'n dweud pethau fel 'o, allwch chi roi cynnig ar hyn, fel gweithgaredd sy'n seiliedig ar deimladau'. Ond byddai'n cymryd mis i mi ddysgu'r holl eirfa y byddai ei hangen ar gyfer gweithgaredd fel 'na.'" **Cyfweliad 4***

- Mynegodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr awydd ac angen am gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus a hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma. Roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn hunan-gyfarwyddo eu datblygiad proffesiynol parhaus ac roedd y tri chyfranogwr a oedd wedi mynychu hyfforddiant neu seminarau ar drawma a oedd yn benodol i'r lleoliad ESOL wedi mynd ati i chwilio amdano eu hunain.

3. Canlyniadau

"Dwi'n awyddus iawn i ddysgu mwy am drawma." Cyfweiliad 12

"Fy syniad i oedd o fwy na syniad y coleg achos o'n i'n teimlo 'mod i angen yr hyfforddiant hwnnw [hyfforddiant ystyriol o drawma yn benodol ar gyfer ESOL]." Cyfweiliad 2

- Nododd y cyfranogwyr yr angen am hyfforddiant ystyriol o drawma sy'n benodol i ystafell ddosbarth ESOL a bod angen i hyfforddiant o'r fath gynnwys dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o drawma y gallai poblogaethau ffoaduriaid a cheiswyr lloches fod wedi'u profi, e.e. trawma rhyfel, anhwylder straen wedi trawma (PTSD), masnachu a dadleoli. Nododd un cyfranogwr sydd wedi cael hyfforddiant ACE nad oedd yn meddwl bod hyn yn berthnasol i'r garfan.

"Mae'r anghenion hyfforddi sydd gen i, ac anghenion hyfforddi fy nhîm hefyd mae'n siŵr, yn anghenion hyfforddi lle mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i drawma yn benodol ym maes ESOL. Dyna be 'da ni ei angen." Cyfweiliad 9

"Dwi'n credu bod astudiaethau ACE yn ddiddorol iawn iawn ac mae ganddyn nhw lawer i'w ddweud. Ond dydw i ddim yn meddwl bod PTSD yn cael ei gwmpasu mewn gwirionedd gan yr ymchwil yma, ac os ydan ni wir eisiau bod yn ystyriol o drawma ac am ymestyn hynny i grwpiau fel dysgwyr ESOL, mae angen i ni ddeall mwy am PTSD." Cyfweiliad 10

"...wedyn mae gynnoch chi'r masnachu a'r gwahanol fathau o fasnachu. Dydw i ddim yn gwybod digon am y peth." Cyfweiliad 6

"Felly dwi'n edrych ar bobl sydd wedi cael eu dadleoli. Wyddoch chi pan oeddwn i'n gweithio yn [lleoliad], glanhau ethnig oedd o. Doeddwn i ddim yn rhan ohono ond roedd 'na hyfforddiant yn mynd 'mlaen ar gyfer pobl eraill. Byddai'r math yna o beth yn ddefnyddiol." Cyfweiliad 12

- Pwysleisiodd y cyfranogwyr hefyd bwysigrwydd ymwybyddiaeth barhaus o wrthdaro a thrychinebau byd-eang fel y gallent ddeall profiadau unigryw myfyrwyr. Soniodd y cyfranogwyr am bwysigrwydd hyfforddiant rheolaidd wrth i wrthdaro a thrychinebau newydd ddod i'r amlwg.

"A pheth arall, y peth arall ydy, mae'n dibynnu faint 'da chi'n ei wybod am yr hyn sy'n digwydd yn y byd, ac mae hynny'n amrywio, yn newid, mae'n newid drwy'r amser." Cyfweiliad 6

3. Canlyniadau

- Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y ffaith y dylai hyfforddiant gynnwys gwybodaeth am sut i wybod a yw rhywun wedi profi trawma a deall yr effaith y gallai hyn ei chael.

"...a gwybod, mae hynny'n beth da, os gallwch chi weld rhywbeth yn rhywun 'da chi'n ei nabod. Ie, achos 'da chi'n edrych ar y myfyrwyr o hyd ac yn meddwl hmmm, tybed be sy'n mynd ymlaen yn fan hyn." Cyfweiliad 6

"Dwi'n meddwl efallai y dylent gael, ac y dylai bod rhywbeth yn y cymhwyster, neu unrhyw gymhwyster sy'n gysylltiedig ag ESOL, sy'n gadael i chi edrych ar be 'di trawma a sut mae ei adnabod o." Cyfweiliad 2

- Nododd y cyfranogwyr yr angen i hyfforddiant ymdrin hefyd â'r agweddau ymarferol ar sut i ymateb i sefyllfaoedd sy'n codi mewn ystafelloedd dosbarth ESOL e.e. datgelu trawma, dicter neu ymddygiad ymosodol gan fyfyrwyr.

"...achos be 'da chi'n ddweud wrth rywun sydd newydd ddeall bod eu merch mewn fflat sydd wedi cael ei fomio y bore hwnnw?" Cyfweiliad 10

"Hyfforddiant ar sut i ymateb i sefyllfaoedd sy'n codi." Cyfweiliad 4

3.7 Pwysigrwydd creu mannau diogel a diogelu myfyrwyr

- Mynegodd y cyfranogwyr bwysigrwydd darparu lle diogel i ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth. Roeddent yn nodi awydd i ddeall sut i greu amgylcheddau mwy diogel a chefnogol i fyfyrwyr, gan ystyried anghenion dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol.

"...yr holl bethau ymarferol hynny fel, wyddoch chi, sefydlu trefn reolaidd lle bo hynny'n bosibl a gwneud i ddysgwyr deimlo'n ddiogel yn seicolegol yn y gofod hwnnw." Cyfweiliad 5

"...sut i atal, sut i greu lle yn yr ystafell ddosbarth lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi." Cyfweiliad 4

"Byddwn i'n dweud pan ddaw'n fater o ddelio â dysgwyr o gefndiroedd diwylliannol gwahanol, sut efallai i beidio â thramgwyddo dysgwyr neu i ddangos mwy o empathi tuag at ddysgwyr." Cyfweiliad 8

3. Canlyniadau

- Mynegodd y cyfranogwyr yr angen i ddeall yn well y ffyrdd ymarferol y gallant gefnogi dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys gwell gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth y gallant gyfeirio myfyrwyr atynt. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod weithiau nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth am y ffordd orau o gefnogi myfyrwyr, na pha wasanaethau y gallent gyfeirio atynt.

"...felly dwi'n meddwl, 'da ni'n siarad am gyfeirio, ond ydyn ni wir yn gwybod beth mae hynny'n ei olygu a ble, ble i fynd?" Cyfweiliad 10

"...dwi'm yn gwybod lle i dy gyfeirio di. Dwi'n meddwl efallai, efallai bod yn ymwybodol o ble i gyfeirio pobl. Pa gymorth arall sydd ar gael? Oherwydd, unwaith eto, allwn ni ddim ateb bob cwestiwn. Pa asiantaethau sy'n gallu helpu?" Cyfweiliad 3

"...fe wnaethon ni drïo [yn y sefydliad] cael cymaint o wybodaeth â phosibl ynglŷn â beth sydd ar gael er mwyn i ni allu cyfeirio pobl. Ond does 'na byth restr. 'Da chi'n gwybod be dwi'n feddwl?" Cyfweiliad 6

3.8 Yr angen am gymorth ychwanegol i ymarferwyr ESOL

- Nododd y cyfranogwyr fod ganddynt fynediad at gymorth ffurfiol (e.e. rheolwyr llinell, gwasanaethau cwnsela sefydliadol ac adnoddau ar-lein) os oes ganddynt bryderon am eu lles neu eu diogelwch eu hunain. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn fwy tebygol o ofyn am gymorth anffurfiol gan gydweithwyr neu ymarferwyr ESOL eraill os oeddent yn teimlo bod angen cymorth neu gyngor arnynt. Nododd y cyfranogwyr fod eu cyfoedion yn fwy tebygol o fod wedi cael profiadau tebyg ac yn gallu deall eu pryderon yn well.

"Dwi'n meddwl mewn gwirionedd mai'r hyn y byddwn i'n ei wneud yn naturiol yw siarad ag athrawon eraill, ffrindiau a chydweithwyr a'm partner am eu bod nhw i gyd wedi cael profiadau tebyg ac yn gwybod bod hyn yn digwydd. Mae'n fwy o help i mi siarad â phobl dwi'n eu nabod yn dda, yn hytrach na ffonio llinell gymorth a dweud 'mae hyn yn digwydd i mi'."
Cyfweiliad 5

3. Canlyniadau

"...dydy o ddim yn faes pwnc y mae llawer o bobl yn ei ddeall, felly pan mae'n fater o siarad â phobl eraill am y peth, dydyn nhw ddim yn gallu uniaethu crystal â'm cydweithwyr i." Cyfweiliad 2

- Nododd y cyfranogwyr yr angen am gyfleoedd i rannu eu profiadau eu hunain, gan gynnwys effaith trawma mechnïol. Er bod llawer o gyfranogwyr yn cydnabod eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth ffurfiol o ran llesiant, roeddent yn mynegi y gallai'r gefnogaeth fod yn fwy perthnasol i'w swyddogaethau ESOL.

"Felly dydy o ddim yn golygu dim cefnogaeth o gwbl. Mae jyst y pwnc, mae trawma fel pwnc yn eitha cyfyngedig, does 'na ddim byd strwythuredig amdano fo." Cyfweiliad 11

"Felly dwi'n meddwl, fel ymarferydd ESOL, mae 'na lawer o gefnogaeth o ran ein lles ni yn y coleg. Ond dwi'n credu'n bendant bod bwlch o ran y math o fyfyrwyr 'da ni'n delio â nhw a pha adnoddau sydd eu hangen arnon ni i gefnogi'r myfyrwyr hynny." Cyfweiliad 8

"...ond dwi'n meddwl bod mwy o systemau cymorth yn fwy cyfannol, efallai. Os 'da chi'n gwranddo ar straeon anodd iawn iawn delio efo nhw yn aml ac ati, does 'na ddim llawer ar gyfer lles yn hynny o beth." Cyfweiliad 5

- Dywedodd dau gyfranogwr hefyd ei bod yn bwysig cael hyfforddiant o safon uchel, a bod hwnnw'n cael ei gyflwyno gan ddarparwr allanol yn hytrach na bod hyfforddiant yn cael ei hunan-arwain.

"Byddem yn elwa o gael darparwyr allanol sy'n cynnig hyfforddiant lefel uchel yn ein hadran ESOL, yn hytrach na'n bod ni'n gorfod darparu hyfforddiant i'n gilydd. Efallai ein bod ni'n dal i ddysgu ein hunain neu'n methu cynnig hyfforddiant o'r fath o safon ddigon uchel, fel y byddai darparwyr allanol yn gallu ei wneud." Cyfweiliad 9

4. Trafodaeth



Dangosodd canfyddiadau cyfweiliadau lled-strwythuredig gydag ymarferwyr ESOL yng Nghymru nad yw'r hyfforddiant presennol ar gyfer ymarferwyr ESOL yn cynnwys sut i ddarparu ESOL mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma. Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol o'r fath,loi a dim ond un cyfranogwr oedd wedi ymgymryd â hyfforddiant a oedd yn benodol berthnasol i leoliad ESOL. Darparwyd yr hyfforddiant hwn gan Brifysgol Caerlŷr (gweler Blwch 1). Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â gwaith ymchwil arall a gynhaliwyd yng Nghymru, lle canfu arolwg o ymarferwyr ESOL nad oedd 95% wedi cael hyfforddiant ar gyfer gweithio gyda goroeswyr trawma [10]. Yn bwysig iawn, roedd pawb a gymerodd ran yn y cyfweiliadau yn nodi bod angen ac awydd am ragor o hyfforddiant ystyriol o drawma yn benodol ar gyfer lleoliad ESOL. Yn yr un modd, mewn arolwg o ymarferwyr ESOL yng Nghymru, dywedodd 97% fod ganddynt ddi-ddordeb mewn cael hyfforddiant ar ddull gweithredu sy'n ystyriol o drawma fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Dangosodd canfyddiadau'r cyfweiliadau hyn, gan nad oes hyfforddiant ffurfiol, fod cyfranogwyr yn dibynnu'n fawr ar eu profiad fel ymarferydd ESOL wrth ddatblygu strategaethau i ymateb i drawma yn yr ystafell ddosbarth ESOL. Ar ben hynny, roedd y cyfranogwyr yn rhannu'r hyn roedden nhw'n ei ddysgu yn anffurfiol gyda'u cyfoedion. Yn unol ag argymhellion adolygiad o bolisi ESOL yng Nghymru, mae'n amlwg bod angen darparu hyfforddiant i ddatblygu ymarfer ystyriol o drawma sy'n benodol i ESOL ymhellach. Er bod ambell enghraifft addawol o ddarparu gweithdai i ymarferwyr ESOL ar drawma drwy NATECLA Cymru, nid yw hyfforddiant o'r fath wedi'i ffurfioli eto yng Nghymru.

4. Trafodaeth

Tynnodd y rhai fu'n cymryd rhan yn y cyfweiliadau sylw at nifer o ffyrdd yr oedd profiad dysgwyr o drawma yn amlwg yn y lleoliad ESOL, a sut yr oedd yn rhaid iddyn nhw fel ymarferwyr ymateb i symptomau trawma. Nododd y cyfranogwyr fod profiad dysgwyr o drawma yn cael effaith eang ar y canlynol: lles emosiynol dysgwyr a sut oeddent yn ymgysylltu; yr amgylchedd dysgu, gan gynnwys addysgu i atal ail-drawmateiddio (e.e. cynllunio gwersi) a diogelwch yn yr ystafell ddosbarth (e.e. delio ag ymddygiad ymosodol); ac anghenion emosiynol yr ymarferwyr eu hunain. Mae canfyddiadau o'r fath yn cyd-fynd â gwaith ymchwil arall sy'n dangos bod athrawon ESOL yn debygol o ddod ar draws effeithiau trawma yn yr ystafell ddosbarth [10]. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, er bod yr astudiaeth hon yn edrych ar argraffiadau ymarferwyr ESOL o effaith trawma yn yr ystafell ddosbarth, nid oedd yn archwilio dealltwriaeth cyfranogwyr o drawma. Felly, gall rhai enghreifftiau a ddarperir gan ymatebwyr o sut mae trawma yn effeithio ar ddysgu fod yn gysylltiedig â phrofiadau eraill fel gwahaniaethau cymdeithasol-wleidyddol neu ddiwylliannol, unigrwydd, neu wahaniaethu.

Nododd y rhai a gymerodd ran yn y cyfweiliadau eu bod yn ymwybodol bod gan unrhyw bwnc yn yr ystafell ddosbarth ESOL y potensial i fod yn sbardun i ddysgwyr ESOL. Roedd hyn yn effeithio ar yr addysgu ei hun, a nododd rhai cyfranogwyr fod angen hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y pethau a allai fod yn sbardun i ambell beth yn yr ystafell ddosbarth, ochr yn ochr â ffyrdd ymarferol o ymateb i fyfyrwyr. Mae gwaith ymchwil arall yng Nghymru hefyd wedi nodi'r angen am hyfforddiant ESOL i gynyddu ymwybyddiaeth ymarferwyr o sbardunau posibl ar gyfer dysgwyr [10]. Dylid ystyried y canfyddiadau hyn yn unol â'r Cynllun Cenedl Noddfa – Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau a allai atal pobl rhag mynd ar gyrsiau ESOL. Mae ymchwil yng Nghymru hefyd wedi dangos nad yw'r holl ddeunyddiau dysgu iaith yn addas ar gyfer dosbarthiadau ESOL [10]; dim ond ychydig o gyfranogwyr yn yr astudiaeth hon a gododd y mater bod deunyddiau a chwricwlwm weithiau'n gallu arwain at gymhlethdodau ar gyfer addysgu.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos y dylai hyfforddiant ymarferwyr ymdrin â'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chyflwyno trawma yn yr ystafell ddosbarth ESOL. Tynnodd y rhai fu'n cymryd rhan yn y cyfweiliadau sylw at gymhlethdodau o ran sut mae trawma'n cael ei adnabod, ei gydnabod a'i drafod. Ar ben hynny, roedd barn y cyfranogwyr, o ran y rôl y dylent ei chwarae fel ymarferwyr ESOL wrth gydnabod a thrafod trawma, yn bur wahanol. Er na ddylai fod yn ofynnol i athrawon ESOL fod yn therapyddion ar gyfer eu dysgwyr, mae'r cyfweiliadau'n dangos bod rhai dysgwyr yn trafod eu profiadau o drawma yn agored. Yng Nghymru, dywedodd 85% o'r ymarferwyr ESOL a arolygwyd fod eu dysgwyr wedi dod atynt i siarad am eu trawma [10]. Yn yr astudiaeth hon, roedd yr ymatebwyr yn sôn am ddiffyg arweiniad a dealltwriaeth o'r arferion gorau ar gyfer y trafodaethau hyn a sut i ddod o hyd i gymorth i'w dysgwyr. Felly, mae angen i ymarferwyr ESOL gael eu hyfforddi ar sut y gallant ymateb yn briodol i ddatgeliadau o'r fath. Hefyd, mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r systemau cymorth a'r atgyfeiriadau priodol sydd ar gael i'w dysgwyr ac iddyn nhw eu hunain fel ymarferwyr. Fodd bynnag, mae angen cydnabod y rhwystrau iaith a chyfathrebu sy'n rhan annatod o'r lleoliad ESOL wrth ddeall yr

4. Trafodaeth

arferion gorau wrth ddelio â'r materion hyn. Mae'n amlwg bod presenoldeb trawma mewn dosbarthiadau ESOL yn gallu cael effaith emosiynol ar ymarferwyr ESOL; roedd un ymarferydd ESOL yn cydnabod iddo ddiodeff trawma mechnïol. Mae gwaith ymchwil arall hefyd wedi cydnabod bod angen hyfforddiant o'r fath i helpu i ddiogelu addysgwyr rhag trawma mechnïol [15]. O'r herwydd, dylai hyfforddiant ystyried cymorth i ymarferwyr ESOL.

Mae canfyddiadau ymchwil yn tynnu sylw at bwysigrwydd teilwra hyfforddiant i ofynion ac anghenion penodol lleoliad ESOL, gan gydnabod yr amrywiaeth eang o drawma a thralod y gallai dysgwyr ESOL fod wedi'u profi. Pwysleisiodd y rhai fu'n cymryd rhan yn yr astudiaeth yr angen i barhau i ddysgu am wrthdaro a thrychinebau byd-eang; mae gwybodaeth o'r fath yn bwysig o ystyried amrywiadau yn amrywiaeth a demograffeg dysgwyr ESOL yng Nghymru. Nid oeddem yn gallu archwilio argraffiadau dysgwyr yn yr astudiaeth hon (gweler y cyfyngiadau). Fodd bynnag, bydd profiadau'r dysgwyr yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu'r hyfforddiant hwn i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion dysgwyr ac ymarferwyr ESOL. Felly, mae angen ymchwil yn y dyfodol gyda dysgwyr ESOL i ddeall eu profiad o ESOL yn well a sut gall hyfforddiant ymarferwyr ar drawma fod yn fuddiol.

4.1 Cyfyngiadau

Mae sawl cyfyngiad yn berthnasol i'r astudiaeth hon. Er gwaethaf ymdrechion i recriwtio cyfranogwyr o bob rhan o Gymru, ni recriwtiwyd neb o Ogledd Cymru i gymryd rhan mewn cyfweiliad, a dim ond un a recriwtiwyd o Ganolbarth Cymru. Yn ogystal, er bod profiadau addysgol a gwaith y cyfranogwyr yn amrywio, ni ellir cyffredinolir canlyniadau i'r holl ymarferwyr a'r lleoliadau ESOL yng Nghymru. Ar ben hynny, nid oedd cyfweiliadau'n holi am brofiad uniongyrchol cyfranogwyr o fudo na thrawma, ac nid oedd unigolion â phrofiad uniongyrchol wedi'u targedu'n benodol yn y broses recriwtio. Rydym yn cydnabod y gallai fod gan rai ymarferwyr ESOL brofiad bywyd o'r fath a allai ddylanwadu ar eu harferion addysgu. Dylai ymchwil yn y dyfodol ystyried rôl profiad bywyd mewn lleoliad ESOL. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â gwaith ymchwil arall a gynhaliwyd gydag ymarferwyr ESOL yng Nghymru [4,10,15].

Casglwyd data dros gyfnod gwyliau'r haf, a allai fod wedi cyfyngu ar y niferoedd fu'n cymryd rhan. Roedd ymdrechion recriwtio yn dibynnu ar gydlynwyr ESOL ac unigolion eraill yn rhannu gwybodaeth am yr astudiaeth gydag ymarferwyr perthnasol yn eu sefydliadau perthnasol. Mae'n ddigon posibl felly fod cyfranogwyr posibl wedi cael eu colli. Gellir dweud bod sefyllfaoedd a safbwyntiau'r tiwtoriaid ESOL fu'n cymryd rhan wedi dylanwadu ar y canfyddiadau. Gan nad oedd trawma wedi'i ddiffinio, mae trafodaethau'n seiliedig ar ddealltwriaeth y cyfranogwyr eu hunain o drawma. Ar ben

4. Trafodaeth

hynny, gall safbwyntiau a thuedd ymchwilydd ddyllanwadu ar ganfyddiadau, lle gall fframio cwestiynau cyfweliad a'r potensial ar gyfer dehongli data'n oddrychol effeithio ar wrthrychedd a dilysrwydd y canfyddiadau.

I liniaru rhagfarn ymchwilydd, cafodd dadansoddiad thematig o ddata ei wirio'n annibynnol gan o leiaf un ymchwilydd ychwanegol. Roedd y gwaith dadansoddi data'n canolbwyntio ar themâu eang, gan arwain at y potensial i elfennau manwl a chymhleth ymatebion unigol gael eu hanwybyddu neu eu symleiddio. Nid yw'r astudiaeth bresennol yn ystyried llais dysgwyr ESOL; dylai ymchwil yn y dyfodol geisio deall anghenion dysgwyr ESOL mewn perthynas ag addysgu sy'n ystyriol o drawma. Rydym yn cydnabod cymhlethdod y garfan dysgwyr ESOL; roedd yr astudiaeth bresennol yn edrych ar ESOL fel lleoliad ac felly nid oedd yn ystyried gwahaniaethau rhwng dysgwyr, er enghraifft, y rheini sy'n mudo dan orfod. Gallai ymchwil yn y dyfodol ystyried hyn.

4.2 Argymhellion

1. Dylid datblygu hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma ar gyfer ymarferwyr ESOL er mwyn gwella ymarfer ystyriol o drawma sy'n benodol i ESOL yng Nghymru. Dylai hyfforddiant o'r fath fod yn benodol i'r lleoliad ESOL a dylai ei ddatblygiad gynnwys mewnbwn gan y rheini sydd â phrofiad o addysgu ESOL a phrofiad uniongyrchol o fudo a thrawma.
2. Dylai hyfforddiant geisio cynnwys y ffactorau canlynol sy'n benodol i'r lleoliad ESOL:
 - a. y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chyflwyno trawma mewn dosbarthiadau ESOL
 - b. canllawiau ar yr arferion gorau ar gyfer cefnogi dysgwyr ESOL yn ymarferol, gan gynnwys sut gall ymarferwyr ymateb yn briodol i ddatgeliadau a diogelu dysgwyr
 - c. canllawiau i ymarferwyr ESOL ar sut gallant ofalu am eu lles emosiynol
 - d. arferion gorau ar gyfer sut gall sefydliadau fabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr ESOL.
3. Dylid mynd ati'n briodol i werthuso hyfforddiant newydd a hyfforddiant sy'n bodoli'n barod er mwyn deall pa mor addas ydyw i'r lleoliad ESOL.
4. Dylai ymchwil yn y dyfodol geisio deall anghenion dysgwyr ESOL mewn perthynas ag addysgu sy'n ystyriol o drawma.

5. Cyfeiriadau

1. Llywodraeth Cymru. Polisi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru. 2019. Ar gael yn: [Polisi ESOL Cymru](#), cyrchwyd 07 Tachwedd 2024.
2. Chick M. English Language Teaching for Forced Migrants in Wales: Education for Integration Impact Case Study [Y Rhyngrwyd]. Ar gael yn: [Impact case study : Results and submissions : REF 2021](#), cyrchwyd 23 Medi 2024.
3. British Council. ESOL [Y Rhyngrwyd]. Dim dyddiad. Ar gael yn: [ESOL | TeachingEnglish | British Council](#), cyrchwyd 23 Medi 2024.
4. Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru, Prifysgol De Cymru. Adolygiad o bolisi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru. Caerdydd; 2023. Ar gael yn: [Adolygiad o bolisi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill \(ESOL\) yng Nghymru](#), cyrchwyd 23 Medi 2024.
5. Sefydliad Iechyd Meddwl. The Mental Health of Asylum Seekers and Refugees in the UK. Y Deyrnas Unedig; 2024. Ar gael yn: [Mental health of asylum seekers - report - February 2024.pdf](#), cyrchwyd 07 Tachwedd 2024.
6. Crawley H. Asylum seekers and refugees in Wales. Partneriaeth Mewnfudo Cymru. 2013. Ar gael yn: [\(PDF\) Asylum seekers and refugees in Wales](#), cyrchwyd 07 Tachwedd 2024.
7. The Conversation. Esol English classes are crucial for migrant integration, yet challenges remain unaddressed [Y Rhyngrwyd]. 2023. Ar gael yn: [Esol English classes are crucial for migrant integration, yet challenges remain unaddressed](#), cyrchwyd 31 Hydref 2024.
8. Kerka S. Trauma and Adult Learning. ERIC Digest. 2002. Ar gael yn: [ERIC - ED472601 - Trauma and Adult Learning. ERIC Digest., 2002](#), cyrchwyd 07 Tachwedd 2024.

5. Cyfeiriadau

9. Gordon D. Trauma and Second Language Learning among Laotian Refugees. *Journal of Southeast Asian American Education and Advancement*. 2011;6(1): 1–7. Doi.10.7771/2153–8999.1029.
10. Agbaso L, Roberts JG. ‘Beyond Being Nice’: A model for supporting adult ESOL learners who have experienced trauma. *Cylchgrawn Addysg Cymru*. 2023;25(2): 89–120. Doi.10.16922/wje.25.2.5.
11. Stone N. Teaching ESL to Survivors of Trauma. *Prospect*. 1995;10(3):49–58. Ar gael yn: [\(PDF\) Teaching ESL to Survivors of Trauma | Nick Stone - Academia.edu](#), cyrchwyd 07 Tachwedd 2024.
12. Estyn. Effaith Bod yn Ystyriol o Drawma [Y Rhynggrwyd]. 2023. Ar gael yn: [Effaith Bod yn Ystyriol o Drawma – Estyn](#), cyrchwyd 23 Medi 2024.
13. Hyb ACE Cymru. Cyflwyno’r Pecyn Cymorth TrACE i mewn i’r Sector Addysg Bellach. 2023. Ar gael yn: [Cyflwyno’r Pecyn Cymorth TrACE i mewn i’r Sector Addysg Bellach](#), cyrchwyd 07 Tachwedd 2024.
14. Llywodraeth Cymru. Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches. 2019. Ar gael yn: [Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches | LLYW.CYMRU](#), cyrchwyd 17 Hydref 2024.
15. Dunn O. “Who am I to teach you?”: Critical reflection in the ESOL classroom. *Language Issues: The ESOL Journal*. 2004;35(1):29–40. Ar gael yn: [\(PDF\) ‘Who am I to teach you?’: Critical reflection in the ESOL classroom](#), cyrchwyd 07 Tachwedd 2024.





Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Hyfforddiant Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn
ystod Plentyndod i ymarferwyr Saesneg ar gyfer
Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru:
deall y ddarpariaeth bresennol a'r bylchau

Natasha Judd, Kat Ford, Katie Cresswell, Rebecca Fellows, Karen Hughes

Uned Cydweithredu Iechyd y Cyhoedd, yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor

ISBN 978-1-84220-215-9

© 2024 Prifysgol Bangor